

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/P/VG/0145/17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich Adroddiad a'ch argymhellion yn dilyn ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2016 fel rhan o'ch Ymchwiliad i Barodrydd ar gyfer y Gaeaf.

Mae'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau yn croesawu eich adroddiad a'ch cydnabyddiaeth bod tystiolaeth o welliannau amlwg. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud sawl argymhelliad a chyflwynir ymateb manwl yn Atodiad A.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i weithio'n agos gyda sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ychwanegu at y cynnydd a wnaed ac i gryfhau ymhellach ein gwasanaethau brys ac argyfwng yng Nghymru drwy gydweithio, a chynyddu gwydnwch mewn modd cynaliadwy.

Yr eiddoch yn gywir

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Cc: Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ymchwiliad i Barodrzydd ar gyfer y Gaeaf 2016/17

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog, fel mater o flaenoriaeth, ganolbwyntio ar integreiddio'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yn well, o ran sut y mae'r sectorau hynny'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Rhaid i'r GIG, y sector gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol fod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn.

Ymateb: Derbyniwyd yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu ar gyfer sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n un cam o blith nifer sy'n anelu at ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae'r byrddau hyn yn dwyn ynghyd y sector iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill er mwyn gwella canlyniadau i bobl a gwella'u llesiant. Mae'n ofynnol i bartneriaid asesu anghenion eu poblogaeth o ran gofal a chefnogaeth, a llunio cynllun i wella pa mor effeithlon ac effeithiol y caiff gwasanaethau eu darparu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yn rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys pobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth, ac rydym yn dal i gefnogi'r gwaith o'u gweithredu.

Byrddau partneriaeth rhanbarthol sy'n goruchwyllo'r Gronfa Gofal Canolraddol a sefydlwyd i ddatblygu modelau newydd ac arloesol o weithio'n integredig. Neilltuwyd £60 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i barhau â'r gronfa bwysig hon.

Mae *Symud Cymru Ymlaen* hefyd yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae sefydliadau wrthi'n blaenoriaethu cynlluniau fel rhan o'u gwaith cynllunio ystadau a gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd cynnar i ddarparu cyllid cyfalaf i gefnogi nifer o atebion ar gyfer ystadau i helpu gyda chynaliadwyedd ac i hyrwyddo integreiddio.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyflwyno disgwyliad newydd o gynllunio integredig yn ôl anghenion y boblogaeth, gan fynd y tu hwnt i ffiniau traddodiadol iechyd, i feysydd fel tai ac addysg. Pan fydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn asesu anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr, rhaid iddynt hefyd nodi:

- i ba raddau y mae'r anghenion hynny heb eu diwallu;
- pa ystod o wasanaethau sydd eu hangen, ac ar ba lefel, i ddiwallu'r anghenion hynny;

- yr ystod o wasanaethau sydd eu hangen, ac ar ba lefel, i ddarparu'r gwasanaethau ataliol sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf; a
- sut y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg

I gyflawni hyn, mae angen i sefydliadau'r GIG barhau i ddatblygu a chryfhau perthnasau gyda phartneriaid allweddol, y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill sy'n ymwneud â darparu gofal o safon uchel i gleifion.

Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG yn offerynnau allweddol ar gyfer gyrru'r gwaith o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru yn ei flaen. Mae ein trefniadau cynllunio yn cynnwys ffocws sylweddol a phroses graffu er mwyn darparu gwasanaethau'n lleol ac ar y cyd i gleifion yng Nghymru. Mae disgwyl i fyrddau iechyd ymgysylltu'n rheolaidd â'r sector gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol wrth ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a chaiff hyn ei brofi pan gaiff eu cynlluniau eu hasesu. Os na fydd sefydliadau'n gallu cyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig ar ôl ei gymeradwyo, byddant yn darparu cynlluniau gweithredol blynyddol i gefnogi gwelliannau cynnar ar draws eu sefydliadau yn cynnwys eu hymgysylltiad â'r sectorau hyn.

Yn olaf, o ran cynllunio yn benodol ar gyfer y gaeaf, ac fel yr amlinellwyd wrth y Pwyllgor, rydym yn llwyr gydnabod yr angen am ddull system-gyfan ac yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i fod yn fwy gwydn drwy gydweithio rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol. Yn amlwg mae rhagor i'w wneud ac rydym wedi rhoi dulliau ar waith i gefnogi gwelliannau pellach.

Argymhelliad 2. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet edrych ar yr opsiynau ar gyfer creu trefniadau gweithio mwy effeithiol rhwng meddygon teulu a fferyllwyr er mwyn osgoi cystadleuaeth wrth roi cynlluniau ataliol cenedlaethol ar waith, fel brechu rhag fflw.

Ymateb: Derbyniwyd

Cynhaliodd Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, uwchgynhadledd fflw ym mis Medi a fynychwyd gan gynrychiolwyr allweddol sy'n ymwneud â darparu'r brechlyn fflw. Roedd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i gefnogi darparu'r brechlyn mor eang ac effeithiol â phosibl, a chafwyd rhai enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth rhwng meddygon teulu a'u fferyllfeydd lleol. Cydnabyddir bod mwy i'w wneud a byddwn yn gofyn i swyddogion weithio gyda grwpiau proffesiynol i ganfod a chefnogi cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach i drefniadau gweithio effeithiol rhwng meddygon teulu a fferyllwyr wrth ddarparu'r rhaglen brechu rhag fflw.

Argymhelliad 3. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod trefniadau ar gael i werthuso pa mor effeithiol yw holl ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag iechyd dros y gaeaf, gan gyhoeddi'r gwersi a ddysgir yn fuan. Dylai hefyd sicrhau bod trefniadau ar gael i sicrhau bod yr holl system yn dysgu o'r gwaith gwerthuso hwn.

Ymateb: Derbyniwyd

Yn y Pwyllgor rhesom gadarnhad bod trefniadau ar waith i werthuso pa mor effeithiol yw'r ymgyrch Dewis Doeth dros y gaeaf hwn. Bydd ymchwil gymdeithasol yn cael ei chynnal drwy Omnibws Beaufort, sy'n sefydliad ymchwil annibynnol sefydledig a chanddo arbenigedd mewn cynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol ac sydd â phrofiad helaeth o ddarparu ymchwil gymdeithasol o ansawdd uchel i'r sector cyhoeddus. Bydd yr ymchwil yn seiliedig ar 1,000 o gyfweiliadau gydag oedolion 16+ oed yng Nghymru i fesur ymwybyddiaeth o'r ymgyrch gyfathrebu a'i heffaith. Hefyd, mae eisoes nifer o ffynonellau gwerthuso y byddwn yn eu defnyddio i fesur llwyddiant yr ymgyrch o ran sicrhau'r canlyniadau a fwriedir, sef:-

- Y cyfryngau – faint o sylw a geir yn y cyfryngau, gan gynnwys cyhoeddiadau rhanddeiliaid a chyfryngau arbenigol;
- Ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol – nifer yr ymweliadau â'r wefan, a faint o ddeunydd sy'n cael ei lawrlwytho, a'r rhyngweithio ar Twitter; a
- Sianeli partneriaid – y partneriaid a fydd yn ymwneud â'r ymgyrch ac i ba raddau y byddant yn rhannu negeseuon yr ymgyrch ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf drwy eu sianeli eu hunain gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein swyddogion wedi rhoi gwybod inni y bydd y gwerthusiad ar gael yng Ngwanwyn 2017. Caiff yr hyn a ddysgir o'r gwerthusiad hwn ei ddefnyddio a'i ymgorffori mewn cynlluniau blynyddol yn y dyfodol, gan gynnwys yr ymgyrch ar gyfer y gaeaf nesaf.

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i ni ddiwedd y chwarter nesaf i roi manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud i gyrraedd y targedau ar gyfer buddsoddiad ychwanegol Llywodraeth Cymru o £50 miliwn tuag at ymdopi â phwysau yn ystod y gaeaf eleni.

Ymateb: Derbyniwyd

Rhoddodd Llywodraeth Cymru £50m yn ychwanegol i GIG Cymru i helpu i reoli'r galw dros y gaeaf a chefnogi perfformiad y GIG yn erbyn y targedau mynediad allweddol dros y cyfnod hwnnw, yn bennaf y perfformiad o ran gofal wedi'i gynllunio ar yr un pryd â rheoli pwysau yn sgil gofal heb ei drefnu.

Mae gennym broses rheoli perfformiad gadarn i graffu ar ddarpariaeth y byrddau iechyd yn erbyn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a'u Cynlluniau Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd perfformiad rheolaidd gyda nhw lle byddwn yn craffu ar y ddarpariaeth yn erbyn y disgwiliadau perfformiad ar eu cyfer fel yr amlinellir yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Fel rhan o'n proses reoli ffurfiol, byddwn yn adolygu perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd hyn yn cynnwys gwerthuso'r defnydd o'r cyllid ychwanegol a sut y cefnogodd hyn bob bwrdd iechyd i sicrhau'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Os bydd y perfformiad yn is na'r disgwyl, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn cadw'r hawl i adennill

peth o'r arian a ddyrannwyd, neu'r arian i gyd. Gellir ailgyfeirio'r arian hwn wedyn i wneud gwelliannau pellach mewn meysydd blaenoriaeth er budd cleifion.

Oherwydd y prosesau ar gyfer dilysu gwybodaeth am berfformiad cyn ei chyhoeddi, mae'n debygol na fydd modd inni roi diweddariad cyn mis Mai.

Argymhelliad 5. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gomisiynu ymchwil neu adolygu'r ymchwil sydd eisoes ar gael i ba mor effeithiol fyddai cydleoli gwasanaethau gofal sylfaenol mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Ymateb: Gwrthodwyd

Rydym yn derbyn bod tystiolaeth am ba mor effeithiol yw cydleoli gwasanaethau gofal sylfaenol gydag adrannau damweiniau ac achosion brys yn gam pwysig wrth helpu i wella gwasanaethau gofal heb ei drefnu. Fodd bynnag, nid cynnal adolygiad ychwanegol y tu hwnt i'n gwaith presennol yn y maes hwn ar yr adeg hon yw'r peth iawn i'w wneud am y rhesymau canlynol.

Mater i fyrddau iechyd a'u partneriaid yw cynllunio gwasanaethau gofal iechyd, a rhaid i'r cynllunio hwnnw adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau'r boblogaeth leol, ac ni fydd un ateb a fydd yn addas i bawb o anghenraid. O ran cydleoli, polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai pobl dderbyn y rhan fwyaf o'u gofal iechyd gartref, neu mor agos i gartref â phosibl, gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau gofal sylfaenol integredig.

Mae tystiolaeth o'r DU gyfan, ac nid dim ond o Gymru, mewn perthynas â pha mor effeithiol yw cydleoli gwasanaethau gofal sylfaenol ac adrannau achosion brys, felly gwyddom y gall cydleoli fod yn llwyddiannus. Mae enghreifftiau da o wasanaethau y Tu Allan i Oriau yn gweithio ochr yn ochr ag adrannau achosion brys, gyda'r gwasanaethau hyn eisoes wedi'u cydleoli mewn 12 o blith y 13 o'r adrannau achosion brys mwyaf yng Nghymru. Ysbyty Brenhinol Gwent yw'r unig eithriad, ac yma mae'r gwasanaeth y Tu Allan i Oriau wedi'i leoli gerllaw, yn Ysbyty Gwynllyw. Mae Atodiad B yn rhestru'r cyfleusterau y Tu Allan i Oriau yn ôl bwrdd iechyd.

Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad i wasanaethau y Tu Allan i Oriau gan feddygon teulu ar draws Cymru. Gwnaed gwaith gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod hydref 2016 a disgwylir y bydd y byrddau iechyd yn cael eu hadroddiadau yn ystod y chwe wythnos nesaf. Ar ôl dosbarthu'r adroddiadau lleol hyn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio Adroddiad Cymru Gyfan a fydd yn ein helpu i ddeall y materion allweddol a bydd Uned Gyflawni GIG Cymru yn arwain ar raglen waith arall i roi sylw i'r rhain yn 2017-18. Bydd hyn yn cefnogi gwaith cenedlaethol arall i wella'r ddealltwriaeth o fodolau presennol o ofal mewn adrannau achosion brys a sut y maent yn gweithio. Bydd yn cymryd amser, ond bydd y rhaglen hon yn arwain at roi model ar waith sy'n seiliedig ar anghenion cleifion lleol. Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau meddygon teulu yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

Mae gweithredu'r gwasanaeth Pathfinder 111 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd yn rhan allweddol o'r jig-so hwn. Ers ei lansio ym mis Hydref

2016, mae'r gwasanaeth wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi cleifion a chlinigwyr ac wrth ddarparu gwasanaeth clinigol cadarn. Mae Prifysgol Sheffield yn cynnal adolygiad o'r cynllun peilot 111 a disgwylir canlyniadau'r adolygiad tua mis Mai 2017. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth o ymateb y cyhoedd i'r gwasanaeth newydd hwn yn bwysig a bydd yn helpu i lywio'r cynlluniau i'w gyflwyno.

Bydd dwyn ynghyd yr wybodaeth a geir yn y darnau unigol hyn o waith yn bwysig. Bwriadwn gyfuno'r canfyddiadau a chredwn mai'r dull hwn fydd y ffordd orau ymlaen i gefnogi adrannau achosion brys a'n gwasanaethau Tu Allan i Orlau sylfaenol ac i greu gwasanaethau integredig cryfach.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi manylion y dadansoddiad o'r farchnad mewn perthynas â'r sector gofal cartref a chartrefi gofal cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi darlun clir o gapasiti, cynaliadwyedd a chryfder ariannol y sector.

Ymateb: Gwrthodwyd

Mae gwaith yn yr arfaeth drwy'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol mewn perthynas â'r dadansoddiad marchnad o'r sector cartrefi gofal. Fodd bynnag, diben y gwaith hwn yw rhoi gwybodaeth i fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol a'u cynorthwyo wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau comisiynu. Gellir defnyddio'r ymarfer hefyd fel sail i ddatblygu cyllidebau cyfun.

Argymhelliad 7. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ystyried, a hynny'n ddiymdroi, yr angen am well hyfforddiant, datblygu sgiliau a goruchwyliaeth drwy'r holl sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng y sectorau wrth wneud hyn.

Ymateb: Derbyniwyd yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyngor Gofal Cymru i hyrwyddo hyfforddiant i weithwyr gofal cymdeithasol a chynnal safonau uchel yn yr hyfforddiant hwnnw, ac yn hynny o beth mae'r Cyngor yn chwarae rhan bwysig mewn datblygu a sicrhau ansawdd hyfforddiant a chymwysterau i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cyfres o gymwysterau newydd i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn 2019.

Ym mis Ebrill bydd y Cyngor Gofal yn newid ac yn cael ei adnabod fel Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd yn defnyddio cyfuniad pwerus o swyddogaethau i gryfhau gwasanaethau a'r gweithlu sy'n eu darparu. Un o'i dasgau cyntaf fydd paratoi ar gyfer ymestyn y broses o gofrestru'r gweithlu i gynnwys gweithwyr gofal cartref yn 2020. Bydd hyn yn golygu cynorthwyo'r gweithlu i gyflawni'r cymwysterau perthnasol gan ddefnyddio'r arian grant sylweddol ar gyfer datblygu'r gweithlu a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant blynyddol o £8m i'r sector gofal cymdeithasol i gefnogi hyfforddiant a datblygiad. Clustnodir y grant mewn ymateb i gynlluniau hyfforddi a datblygu rhanbarthol a luniwyd gan bartneriaethau gweithlu rhanbarthol. Mae'r partneriaethau rhanbarthol yn ddull cydweithredol o ddatblygu'r gweithlu ar draws awdurdodau lleol a'r sector annibynnol.

Datblygwyd fframwaith datblygu sgiliau a gyrfa ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol y GIG. Diben y Fframwaith hwn yw cynnig offeryn llywodraethu i lywio datblygiad sgiliau a gyrfa'r gweithlu o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd Clinigol yn GIG Cymru. Bydd yr adnodd yn berthnasol i'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd hynny sydd ym meysydd Nyrso a Bydwreigiaeth ac i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Bydd yn cefnogi datblygu rolau nawr ac yn y dyfodol drwy safoni cwmpas eu rolau a datblygu llwybrau addysgol gyda'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i weithio'n ddiogel. Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi gyrfaoedd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ac yn cynyddu proffesiynoli'r gweithlu craidd hwn, gan ychwanegu at y gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir eisoes i unigolion. Rydym yn ystyried integreiddio'r fframwaith hwn gyda'r fframwaith a ddefnyddir ar gyfer staff gofal cymdeithasol.

Mae nifer o ddogfennau canllaw wedi'u cyhoeddi i hwyluso gweithio a hyfforddi ar y cyd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, er budd cleifion a chleientiaid. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar ddirprwyo i drydydd parti a chanllawiau ar fwydo drwy endosgopi.

Mae pob bwrdd iechyd wedi sefydlu fforymau ar gyfer Metronau cartrefi gofal er mwyn cefnogi dysgu a datblygu yn y sector hwn. Mae sawl bwrdd iechyd hefyd wedi rhoi gwahoddiadau agored i staff cartrefi gofal fanteisio ar raglenni hyfforddiant mewnol y byrddau iechyd.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog wneud a chyhoeddi trefniadau i rannu arferion da mewn ffordd strwythuredig mewn perthynas â chynlluniau llyyddiannus sy'n cael eu darparu drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol.

Ymateb: Derbyniwyd mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru, drwy gyfres o ddigwyddiadau penodol, wedi ceisio sicrhau bod gan ranbarthau gyfle i rannu arferion gorau mewn perthynas â chynlluniau a ddarperir drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol. Rhannwyd gwybodaeth ac arferion da mewn ffordd fwy anffurfiol hefyd, yn uniongyrchol rhwng ranbarthau a chan swyddogion Llywodraeth Cymru. Er nad ydym yn derbyn bod angen cyhoeddi trefniadau'n ffurfiol, byddwn yn parhau i hwyluso diwylliant o rannu arferion gorau drwy gyfrwng y canllawiau diwygiedig arfaethedig ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol i gefnogi darpariaeth y Gronfa a thrwy ddigwyddiadau cenedlaethol pellach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r potensial i rannu arferion gorau hefyd drwy Hyb Dysgu ac Ymchwil Ar-lein Cyngor Gofal Cymru a thrwy weithio gydag Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n chwarae rhannau allweddol mewn gwella a rhannu arferion orau.

Argymhelliad 9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog egluro'r sefyllfa ynghylch rhoi cyllid hirdymor i gynlluniau llwyddiannus o dan y Gronfa Gofal Canolraddol. Dylent hefyd amlinellu'n glir sut y bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y Gronfa fel rhan o gyllideb ddrafft 2017-18 yn cael ei ddefnyddio, a beth fydd yr effaith ddisgwyliedig.

Ymateb: Derbyniwyd mewn egwyddor

Ers ei sefydlu yn 2014, defnyddiwyd y Gronfa Gofal Canolraddol i ddatblygu modelau newydd ac arloesol o ddulliau integredig o weithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon dyfarnwyd £60 miliwn i barhau i gefnogi ystod eang o fentrau sy'n atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl ac oedi wrth ryddhau pob o'r ysbyty.

Yn *Symud Cymru Ymlaen* ceir ymrwymiad i gadw'r Gronfa Gofal Canolraddol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried amcanion a blaenoriaethau'r gronfa hon ar gyfer y dyfodol, a byddant yn sicrhau y caiff hyn ei wneud yn glir i'r rhanbarthau cyn y flwyddyn ariannol newydd.

Bydd y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn parhau i reoli'r gronfa bwysig hon. Gallant hefyd sicrhau bod y partneriaid yn defnyddio cyllidebau a ffrydiau cyllido, gan gynnwys y Gronfa Gofal Canolraddol a'r Gronfa Gofal Sylfaenol, yn effeithiol er mwyn cyd-drefnu gwariant i sicrhau'r budd gorau posibl i ddinasyddion mewn ymateb i'r asesiad o boblogaeth sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Atodiad B

Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu wedi'u Cydleoli

Bwrdd Iechyd	Canolfan Gofal Sylfaenol Tu Allan i Oriau	Cytleoli gydag Adran Achosion Brys
BIP Abertawe Bro Morgannwg	Wedi'u lleoli yn Ysbyty Treforys, Ysbyty Tywysoges Cymru a'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.	Wedi'u lleoli drws nesaf i'r adran achosion brys yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Tywysoges Cymru (clinig toriadau). Wedi'u lleoli drws nesaf i'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.
BIP Aneurin Bevan	Tair prif Ganolfan Gofal Sylfaenol wedi'u lleoli yn Ysbyty Gwynllyw, Neuadd Nevill ac Ysbyty Ystrad Fawr.	Polisiâu arallgyfeirio adrannau achosion brys ar waith. Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Gwent wedi'i gydleoli o fewn y Ganolfan Achosion Brys Leol yn Ysbyty Ystrad Fawr. Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau wedi'i lleoli yn Neuadd Nevill yn yr un adeilad ond yn adran cleifion allanol 2.
BIP Betsi Cadwaladr	Mae'r tair prif ganolfan driniaeth, sydd wedi'u cydleoli gyda'r adran achosion brys a'r Uned Mân Anafiadau, ac sydd ar agor drwy gydol y cyfnod Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau, wedi'u lleoli yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae cymysgedd o feddygon teulu ac Uwchymarferwyr Nyrsio yn staffio'r rhain.	Pob un wedi'i gydleoli gyda'r adran achosion brys/Uned Mân Anafiadau.

	<p>Mae hefyd naw gwasanaeth gofal brys lleol / Uned Mân Anafiadau</p>	<p>Mae'r ganolfan driniaeth y Tu Allan i Oriau yng Nglannau Dyfrdwy ar agor rhwng 18:00 a 23:00 yn ystod yr wythnos, a rhwng 8:00 a 23:00 ar y penwythnos ac ar wyliau banc. Mae meddygon teulu ac Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn ei staffio.</p> <p>Mae'r ganolfan driniaeth y Tu Allan i Oriau yn Llandudno ar agor rhwng 8:30 a 20:00 ar y penwythnos ac ar wyliau banc. Meddyg teulu bob amser yn bresennol.</p> <p>Mae'r canolfannau triniaeth y Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Alltwen (Porthmadog) a Dolgellau wedi'u cydleoli'r drws nesaf i'r Uned Mân Anafiadau ac maent ar agor drwy gydol y cyfnod Tu Allan i Oriau – a meddyg teulu yn eu staffio. Mae gan y meddyg teulu yn Nolgellau fynediad at ystafelloedd clinigol ac ati yn Ysbyty Cymunedol Tywyn i weld cleifion Tywyn.</p> <p>Mae'r canolfannau triniaeth Tu Allan i Oriau yng Nghaergybi a Phwllheli wedi'u staffio gan Uwch-ymarferydd Nyrsio rhwng 9 a 17:30 ar ddydd Sadwrn, Sul ac ar Wyliau Banc.</p>
BIP Caerdydd a'r Fro	Tair canolfan wedi'u lleoli yn Ysbyty'r Barri, Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd.	Mae'r ganolfan Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi'i lleoli yn yr uned trawma ger yr adran achosion

		brys. Gofynnir i gleifion gofal sylfaenol sy'n cyrraedd yr Adran Achosion Brys ffonio'r ganolfan Tu Allan i Oriau, ac mae hynny'n amhriodol.
BIP Cwm Taf	Dwy ganolfan wedi'u lleoli yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg.	Mae Canolfan Gofal Sylfaenol Ysbyty Brenhinol Morgannwg y drws nesaf i'r adran achosion brys. Mae Canolfan Gofal Sylfaenol Ysbyty'r Tywysog Siarl yn rhan o Uned Mân Anafiadau yr adran achosion brys. Mae gwasanaethau y Tu Allan i Oriau hefyd yn Ysbyty Cwm Cynon ac Ysbyty Cwm Rhondda.
BIP Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin: Canolfannau Gofal Sylfaenol yn Ysbyty'r Tywysog Phillip ac Ysbyty Glangwili. Sir Benfro: Llwynhelyg Ceredigion: Bronglais a meddygfa Llynyfran	Wedi'u cydleoli yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llwynhelyg a Bronglais a thrafodaethau i anelu at integreiddio yma. Mae Canolfan Gofal Sylfaenol Llwynhelyg y drws nesaf i'r adran achosion brys, mae cydweithio ar yr agenda ar gyfer y flwyddyn hon ond mae ffordd i'r adran achosion brys ddefnyddio Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau drwy drafod gyda'r gwasanaeth ar gyfer mynychwyr amhriodol.
Bla Powys	Lleoliadau yn Aberhonddu, Y Trallwng, Llandrindod, Y Drenewydd a Machynlleth Yn ystod yr wythnos: Y Trallwng a Llandrindod ar agor 7pm-12am, Y	Ddim yn berthnasol.

	<p>Drenewydd 12am-8am ac Aberhonddu drwy'r nos. Meddyg Teulu ar alwad wedi'i leoli yn Llandrindod ar gyfer y nos.</p> <p>Y penwythnos:</p> <p>Y Trallwng ar agor 8am-7pm ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Y Drenewydd ar agor o hanner nos tan 8am, yna 10am-4pm, yna 7pm-12pm (dydd Sadwrn a dydd Sul) Aberhonddu ar agor 12am-12pm ar ddydd Sadwrn a Dydd Sul, Llandrindod: Ar ddydd Sadwrn mae gwasanaeth ar alwad o hanner nos tan 9am, ar agor 9am-4pm, yna ar agor 5pm-11pm. Ar ddydd Sul mae gwasanaeth ar alwad o hanner nos tan 9am, ar agor 10am-5pm, ar agor 5pm-12pm</p>	
--	--	--